

## DATHLIADAU RHITHIOL Y NADOLIG

Newyddion gwych! . . . Goleuadau Coeden Nadolig rhithiol!

I osgoi siom eleni yn sgil y cyfyngiadau, mae cymuned Dolwyddelan wedi dod ynghyd i gynhyrchu ffilm rithiol ar gyfer y Nadolig gyda phobl yn canu, negeseuon Nadolig a lluniau o'n pentref.

**Bydd ymweliad gan  
Siôn Corn hefyd!**



Bydd y ffilm ar dudalen Facebook Dolwyddelan o Ragfyr y 5ed. Os nad oes modd ichi fwrw golwg arni ar Facebook, peidiwch â phoeni, byddwn yn ei dangos yn gyhoeddus yng Nghlwb Sinema'r Pentref mor fuan â phosib (a pan fydd yn ddiogel inni wneud hynny) yn 2021.



### Cylch yr Ifanc



Oherwydd y pandemic ni fyddwn yn casglu na dosbarthu y Post Nadolig lleol eleni. Fyddwn ni ddim yn dosbarthu ein parseli Nadolig chwaith ond yr ydym yn meddwl llawer amdanoch, ac edrychwn ymlaen am eich gweld yn 2021.

Cofion atoch – un ac oll, gan yr Aelodau a'r Swyddogion.

**Mae pawb ym Menter Siabod yn  
dymuno Nadolig Llawen ac Iach**

**a**

**Blwyddyn Newydd Dda a Llewyrchus  
i bob un o'n darllenwyr**

